OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 3368

# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Hylendid a Gorfodi) (Cymru) 2005

## RHAN 4

Gweinyddu a Gorfodi yn Gyffredinol

**Archwilio, atafaelu a chadw bwyd anifeiliaid a amheuir**

**25.**—(1) Pan fo swyddog awdurdodedig wedi archwilio neu wedi samplu unrhyw ddeunydd o dan reoliad 24, bydd paragraffau (2) i (7) yn gymwys, os ymddengys i'r swyddog, wrth wneud y cyfryw archwiliad, neu wrth ddadansoddi samplau a gymerwyd, fod y deunydd yn methu â chydymffurfio â gofynion cyfraith bwyd anifeiliaid benodedig.

(2) Caiff y swyddog awdurdodedig naill ai—

(a) rhoi hysbysiad i'r person sy'n gyfrifol am y deunydd na ddylai'r deunydd neu unrhyw gyfran ohono a bennwyd hyd nes y tynnir yr hysbysiad yn ôl—

(i) cael ei ddefnyddio fel bwyd anifeiliaid; a

(ii) na ddylai naill ai gael ei symud neu na ddylai gael ei symud ac eithrio i ryw le a ragnodwyd yn yr hysbysiad; neu

(b) atafaelu'r deunydd er mwyn i ynad heddwch ymdrin ag ef,

ac mae unrhyw berson sy'n torri gofyniad hysbysiad o dan is-baragraff (a) uchod gan wybod ei fod yn gwneud hynny, yn euog o dramgwydd.

(3) Pan fo'r swyddog awdurdodedig yn ymarfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(a), mae'n rhaid i'r swyddog, cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a sut bynnag o fewn 21 diwrnod, benderfynu p'un a yw'n fodlon bod y deunydd yn cydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ai peidio ac—

(a) os yw wedi'i fodloni felly, tynnu'r hysbysiad yn ôl ar unwaith;

(b) os nad yw wedi'i fodloni felly, cael peri bod ynad heddwch yn ymdrin â'r mater o dan baragraff (5).

(4) Pan fo'r swyddog awdurdodedig yn arfer y pwerau a roddir gan baragraff 2(b) neu'n cymryd camau o dan baragraff 3(b), mae'n rhaid i'r swyddog hysbysu'r person sy'n gyfrifol am y deunydd o fwriad y swyddog i gael ynad heddwch i ymdrin ag ef ac—

(a) bydd gan unrhyw berson a allai fod yn agored o dan ddarpariaethau cyfraith bwyd anifeiliaid a bennwyd i gael ei erlyn mewn perthynas â'r deunydd, os bydd y person hwnnw yn ymddangos gerbron yr ynad heddwch sy'n ymdrin â'r deunydd, yr hawl i gael gwrandawiad a galw ar dystion; a

(b) caiff yr ynad heddwch hwnnw fod yn aelod o'r llys y cyhuddir unrhyw berson o dramgwydd o dan y darpariaethau hynny mewn perthynas â'r deunydd hwnnw ger ei bron, ond nid oes angen iddo fod felly.

(5) Os ymddengys i ynad heddwch, ar sail y cyfryw dystiolaeth y cred ei bod yn briodol o dan yr amgylchiadau, fod unrhyw ddeunydd y mae'n ymdrin ag ef o dan y rheoliad hwn, yn methu â chydymffurfio â gofyniad y gyfraith bwyd anifeiliaid benodedig yna mae'n rhaid iddo gondemnio'r deunydd a gorchymyn—

(a) i'r deunydd gael ei ddinistrio neu ei waredu yn y cyfryw fodd ag sy'n ei atal rhag cael ei ddefnyddio fel bwyd y bwriedir i bobl ei fwyta neu fel bwyd anifeiliaid; a

(b) i unrhyw dreuliau yr aethpwyd iddynt yn rhesymol mewn cysylltiad â dinistrio neu waredu gael eu talu gan weithredwr y busnes bwyd anifeiliaid.

(6) Os tynnir hysbysiad o dan baragraff 2(a) yn ôl, neu os bydd yr ynad heddwch sy'n ymdrin ag unrhyw ddeunydd o dan y rheoliad hwn yn gwrthod ei gondemnio, mae'n rhaid i'r awdurdod gorfodi ddigolledu perchennog y deunydd am unrhyw ddibrisiant yn ei werth o ganlyniad i'r camau a gymerwyd gan y swyddog awdurdodedig.

(7) Penderfynir ar unrhyw anghydfod ynglŷn â'r hawl i unrhyw ddigollediad neu swm y digollediad sy'n daladwy o dan baragraff (6) drwy gymrodeddu.

(8) Mae unrhyw un y bernir ei fod yn euog o dramgwydd o dan baragraff (2) yn agored—

(a) ar gollfarn ddiannod i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu'r ddau; neu

(b) ar gollfarn ar dditiad, i garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd neu i ddirwy, neu'r ddau.